# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 – Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2168A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 12

Atodiad 2 – ffi archwilio 14

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 15

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio 2020 yn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Digwyddodd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. O ystyried ei effaith, ail-luniais fy rhaglenni gwaith arfaethedig drwy ystyried y ffordd orau o sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Ystyriais effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a'm nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Ataliwyd yr holl waith archwilio ar safleoedd wrth inni barhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan oedd hynny'n bosibl, gan ddefnyddio technoleg. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar gyflawni rhywfaint o'm gwaith archwilio arfaethedig, ond mae hefyd wedi sbarduno newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Nid oedd cyflawni fy archwiliad o waith cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom ymgymryd â'r gwaith, ond hefyd o ran ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol sy'n deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant o ran cyflawni'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd, er mwyn croesawu a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion niferus sy'n codi.

5 Ar ddechrau'r pandemig, ataliais rhag cyhoeddi rhai adroddiadau archwilio perfformiad a oedd bron wedi eu cwblhau, gan adlewyrchu capasiti cyrff a archwiliwyd i gefnogi'r gwaith maes a oedd yn weddill ac er mwyn cyfrannu at glirio allbynnau archwilio drafft. Rwyf hefyd wedi addasu pwyslais a dull rhai adolygiadau arfaethedig eraill er mwyn sicrhau eu perthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng.

Mae ffrydiau gwaith newydd wedi eu cyflwyno, megis fy adolygiad o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, ac mae fy nhimau archwilio lleol wedi cyfrannu at fy ngwaith dysgu COVID-19 ehangach.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith arfaethedig sy'n cael ei ailgwmpasu ar hyn o bryd.

7 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â'm gwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2020.

8 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio ariannol a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2020 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Ionawr 2021. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad yn ei gyfarfod Bwrdd ym mis Ionawr 2021 a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

11 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG.

12 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac er nad oedd ganddo unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu na ddefnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd, cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 y Bwrdd Iechyd.

13 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i gyflawni balans ariannol ac i gael cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

14 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yr Awdurdod wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnal llywodraethu da cyffredinol gan weithio gyda fframweithiau diwygiedig i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd yn ystod ymateb COVID-19.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau ariannol sylweddol, gan gynnwys y costau parhaus ar gyfer ymateb i COVID-19, ond mae wedi cryfhau agweddau ar reolaeth ariannol a chynnal rheolaethau ac adroddiadau ariannol effeithiol.
- caiff cynlluniau gweithredol eu llywio gan fodelu data, ymrwymiad clir i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio rhanbarthol a llesiant staff gyda threfniadau ar gyfer monitro cynnydd a pherfformiad. Fodd bynnag, bydd brig COVID-19 arall yn her sylweddol i'r gweithlu.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, mae ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal ac o ganfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.

15 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r canfyddiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20. Sut mae'r sefydliad yn dangos eu perfformiad ariannol ac yn nodi eu hasedau net, eu costau gweithredu net, eu henillion a'u colledion cydnabyddedig, a'u llifau arian parod yw'r datganiadau hyn. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ran dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

17 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

18 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2019-20

19 **Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau Treth pensiwn Clinigwyr y GIG.**

20 Cefais gyfrifon drafft erbyn y dyddiad cau ac roedd y papurau gwaith ategol o ansawdd da.

21 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny yr ystyriais eu bod yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiad sylweddol yn y cyfrifon. Nid ystyriais nhw at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd y broses o weithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

22 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 25 Mehefin 2020. Crynhoa **Arddangosyn 1** faterion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Gwnaed sawl addasiad i'r cyfrifon drafft a oedd yn ymwneud yn bennaf â naratif ychwanegol er mwyn darparu rhagor o eglurder. |
| Materion arwyddocaol eraill | Amodais fy marn ar reoleidd-dra a chyhoeddais adroddiad sylweddol oherwydd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i sicrhau balans ariannol am y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2019-20. |

23 Cynhaliais, hefyd, adolygiad o ffurflen Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gydgrynhoi y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2020 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

24 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi ei gwblhau a chyhoeddais farn ddiamod ar y cyfrifon ar 10 Tachwedd 2020.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

25 **Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yn ei gyfrifon 2019-20.**

26 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw. Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn yr incwm ac i wario'r arian. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn nac i'w hysgwyddo.

27 Pan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn reoleidd-dra.

28 Yn 2019-20, nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £16.3 miliwn. Hefyd, tramgwyddodd y Bwrdd Iechyd ei derfyn adnoddau cronnol drwy wario

£58.6 miliwn yn fwy na'r £3.1 biliwn yr awdurdodwyd iddo ei wario yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20.

29 **Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at ei fethiant i gyflawni balans ariannol a'i fethiant i roi cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.**

30 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad sylweddol ynghylch cyfrifon y Bwrdd Iechyd ynghyd â'm barnau pan yr wyf yn dymuno tynnu sylw at faterion.

31 Oherwydd methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol, cyhoeddais adroddiad sylweddol sy'n nodi'r manylion ffeithiol: methodd yn ei ddyletswydd i sicrhau balans ariannol (fel y nodir uchod) ac nid oes ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gynllun blwyddyn ar hyn o bryd.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

32 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll y Bwrdd Iechyd.

33 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Asesiad strwythuredig

34 Cynlluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Sicrheais ddull addas o bragmatig a pherthnasol i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Roedd pwyslais allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol pan fu'r rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol, yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol.

35 Grwpiodd yr asesiad strwythuredig ein canfyddiadau o dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;

- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: cefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig yn gytbwys o'i gymharu â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

## Trefniadau llywodraethu

36 Roedd fy ngwaith yn ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan orfod ymateb yn sydyn i'r heriau digynsail a gyflwynir gan y pandemig.

37 Canfu fy ngwaith y cynhaliwyd llywodraethu da cyffredinol gan weithio gyda fframweithiau diwygiedig i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd yn ystod ymateb COVID-19. Trwy drefniadau addasedig, cynhaliodd y Bwrdd dryloywder, gan sicrhau gwaith craffu effeithiol a defnyddio data yn effeithiol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Arweiniodd Bwrdd cadarn y sefydliad a pharhaodd systemau sicrwydd hanfodol yn ystod y pandemig, gan ganolbwyntio'n gryf ar reoli risgiau. Cynhaliwyd y gwaith o oruchwylio trefniadau llywodraethu ac adferwyd pwyllgorau a roes y gorau i weithredu dros dro.

## Rheoli adnoddau ariannol

38 Ystyriais berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol dros y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol.

39 Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn wynebu her ariannol sylweddol, ond ei fod wedi cryfhau agweddau pwysig ar reolaeth ariannol ac wedi cynnal rheolaethau ariannol da, adroddiadau a gwaith craffu da, gan gynnwys olrhain gwariant COVID-19. Gyda diffyg o £16.3 miliwn, ni fodlonodd ddyletswyddau ariannol yn 2019-20 ac mae'n rhagweld diffyg o £24 miliwn yn 2020-21. Mae ansicrwydd ynghylch costau COVID-19 parhaus yn debygol o arwain at ddiffyg mwy heb gyllid ychwanegol.

40 Roedd cyllidebau wedi eu hailseilio ar gyfer 2020-21 ac aeth y Bwrdd Iechyd ar drywydd gwelliannau rheoli ariannol er mwyn cryfhau gafael a rheolaeth. Yr her yn awr yw ymwreiddio'r gwelliannau hyn yn gyflym er mwyn helpu'r sefydliad i adfer yn ariannol. Fodd bynnag, bydd angen ailgastio'r cynllun i fantoli'r cyfrifol mewn tair blynedd yng ngoleuni COVID-19 a'r sylfaen gostau llai i wneud arbedion ohoni yn sgil newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr.

## Cynllunio Gweithredol

41 Ystyriodd fy ngwaith gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol ar gyfer cefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 a darparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, canolbwyntiwyd ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo gwneud hynny'n ddiogel ac yn ymarferol.

42 Canfu fy ngwaith fod y broses gynllunio gweithredol yn cael ei llywio drwy fodelu data, gyda threfniadau i fonitro cynnydd a pherfformiad, ac ymrwymiad clir i

ymgysylltu â rhanddeiliaid ac i weithio'n rhanbarthol. Mae cynlluniau gweithredol hefyd yn cefnogi'r broses o ailddechrau gwasanaethau ac yn cydnabod blaenoriaethau o ran cynlluniau gwasanaethau clinigol. Mae ffyrdd newydd o weithio a gynhyrchwyd gan y pandemig yn llywio model gweithredu y dyfodol, ond bydd angen ei gysoni â'r rhaglen drawsnewid flaenorol

43 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ail-lunio adroddiadau perfformiad ac mae'n datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd sy'n seiliedig ar y pedwar cwadrant niwed. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cefnogi llesiant staff ac ymatebodd i heriau'r gweithlu, er bod capasiti'r gweithlu yn risg pe byddai brigiad arall o achosion COVID-19. Mae dysgu yn rhan allweddol o raglen ailosod ac adfer y sefydliad.

## Effeithiolrwydd y trefniadau gwrth-dwyll

44 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sy'n disgrifio trefniadau gwrth-dwyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yna, cynhaliodd fy nhîm archwiliad manylach ar draws ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau gwrth-dwyll yn ymarferol a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddais Gwella ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru sy'n nodi crynodeb o'm canfyddiadau a saith 'thema allweddol' y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

45 Er na chafodd y gwaith hwn ei gynnwys yng nghynllun archwilio'r Bwrdd Iechyd, cyhoeddais adroddiad ychwanegol hefyd sy'n nodi trefniadau penodol y Bwrdd Iechyd ar gyfer atal a chanfod twyll. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, bod ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal ac o ganfod twyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Mehefin 2020 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2020 |
| Adroddiad Archwilio Cronfeydd Elusennol – Datganiadau Ariannol | Hydref 2020 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol – Cronfeydd Elusennol | Tachwedd 2020 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2020 | Medi 2020 |
| Effeithiolrwydd y trefniadau gwrth-dwyll | Awst 2020 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2020 | |

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo**

| Adroddiad | Amcangyfrif o’r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Orthopedeg | Rhagfyr 2020 |
| Adolygiad o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Rhagfyr 2020 |
| Profi, Olrhain a Diogelu | Rhagfyr 2020 |
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Chwefror 2021<br>Mae rhagor o waith i’w gynnwys yn rhan o gynllun 2021 |
| Adolygu’r trefniadau comisiynu a chontractio ar ôl newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr | Mawrth 2021 |
| Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Ebrill 2021 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2020 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £391,807 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwiliad ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Y risg bod rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai'r gwrth-wneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarnau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Gwnaeth fy nhîm archwilio:<br>• profi cofnodion mewn cyfnodolion;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, yn benodol taliadau gofal sylfaenol; a<br>• pheidio â nodi unrhyw drafodiadau y tu allan i fusnes arferol.<br>Ni ddeilliodd unrhyw faterion o'r gwaith a gynhaliwyd. |
| Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, ac o'r herwydd fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu a phrofi'r ffrydiau cyllid ac incwm unigol a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd;<br>• ystyried a yw'r holl ffrydiau cyllid ac incwm wedi eu nodi. | Adolygodd fy nhîm archwilio ffrydiau incwm er cyflawnrwydd a phrofodd am gywirdeb.<br>Ni ddeilliodd unrhyw faterion o'r gwaith a gynhaliwyd. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Mae risg sylweddol y bydd y Bwrdd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf o fantoli'r cyfrifon yn ystod cyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 9 yn dangos diffyg y flwyddyn hyd yma o £11.1 miliwn ac yn rhagweld diffyg o £12.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2017-18 a 2018-19, yn rhagweld sefyllfa o ddiffyg tair blynedd.<br>Pan fo'r Bwrdd yn methu â bodloni'r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn amodi fy marn rheoleidd-dra a byddaf yn cyflwyno adroddiad sylweddol ynghylch y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon y rheolwyr fod yn rhagfarnllyd mewn ymdrech i fodloni'r ddyletswydd ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio eu profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau.<br>Mae'n bosibl y byddaf yn dewis gosod adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol sy'n esbonio'r methiant ac o dan ba amgylchiadau y digwyddodd hyn. | Adolygodd fy nhîm archwilio drafodiadau diwedd y flwyddyn, yn benodol croniadau a thorbwyntiau. Ni ddeilliodd unrhyw faterion o'r gwaith a gynhaliwyd.<br>Gosodais adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol sy'n esbonio'r methiant ac o dan ba amgylchiadau y digwyddodd hyn. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Mae rhwymedigaethau o ran costau gofal iechyd parhaus yn parhau i fod yn fater ariannol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r ffurflen fonitro ddiweddaraf yn nodi cynnydd yn nifer yr hawliadau ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys symiau sy'n ymwneud â'r costau gofal iechyd parhaus ansicr hynny yn ei ddatganiadau ariannol.<br>Mae risg nad adlewyrchir y symiau hyn yn gywir yn y datganiadau ariannol ac y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan yn sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio gwariant Gofal Iechyd Parhaus ac yn sicrhau'r driniaeth gyfrifyddu gywir. | Profodd fy nhîm archwilio sampl o'r gwariant Gofal Iechyd Parhaus, y credydwyr, y darpariaethau a'r rhwymedigaethau digwyddiadol. Ni ddeilliodd unrhyw faterion o'r gwaith a gynhaliwyd. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Trosglwyddo Ffin Pen-y-bont ar Ogwr**<br>O 1 Ebrill 2019, bydd y cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi symud o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.<br>Bydd angen i'r datganiadau ariannol ddatgelu'r newid hwn o 1 Ebrill 2019.<br>Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi colli nifer o staff allweddol yn rhan o'r trosglwyddiad, sydd wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y staff sy'n weddill, gan gynyddu'r risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu ei ddatganiadau ariannol ar gyfer 2019-20 erbyn y terfynau amser gofynnol. | Bydd fy nhîm archwilio yn cysylltu â staff cyllid er mwyn sicrhau y cedwir at y cynllun cynhyrchu cyfrifon ac y bydd datgeliadau priodol yn cael eu gwneud. | Bu fy nhîm archwilio yn cysylltu â staff cyllid ac yn sicrhau y cadwyd at y cynllun cynhyrchu cyfrifon a bod datgeliadau priodol wedi eu gwneud yn y datganiadau ariannol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gyfarwyddyd Gweinidogol ffurfiol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithredu menter 'cynllun sy'n talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth bensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol. | Rydym yn ystyried triniaeth gyfrifyddu a goblygiadau archwilio'r cyfarwyddyd (y cyntaf yng Nghymru ers 1999) ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n mynd i'r afael â'r un mater yn GIG Lloegr ar hyn o bryd. | Ystyriodd fy nhîm archwilio y driniaeth gyfrifyddu a'r goblygiadau archwilio. Ceir Rhwymedigaeth Ddigwyddiadol ar gyfer hyn yn y datganiadau ariannol a cheir Pwyslais ar Fater yn ein barn archwilio. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Safonau cyfrifyddu newydd**<br>Yn 2020-21, bydd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 yn disodli IAS 17, sef y safon bresennol ar gyfer lesoedd a gallai beri risgiau gweithredu. Y newid allweddol yw ei bod y dileu i raddau helaeth y gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu ac ariannol ar gyfer lesddeiliaid, drwy gyflwyno un model cyfrifyddu i lesddeiliaid sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo nodi asedau a rhwymedigaethau ar gyfer yr holl lesoedd â chyfnod o fwy na 12 mis, oni bai bod gwerth isel i'r ased sylfaenol. Bydd yn arwain at nodi'r holl lesoedd ar y fantolen yn ased wedi ei seilio ar egwyddor 'hawl defnyddio' â'r rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer ei logi yn y dyfodol. Mae hyn yn newid sylweddol i drefn gyfrifyddu lesddeiliaid. | Bydd fy nhîm yn ymgymryd â rhywfaint o waith cynnar er mwyn adolygu'r parodrwydd ar gyfer cyflwyno 16 les y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. | Adolygodd fy nhîm archwilio y parodrwydd i gyflwyno Lesoedd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16. Ni ddeilliodd unrhyw faterion o'r gwaith a gynhaliwyd. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.